

CARIAD DUW YN IESU GRIST

Gweddïwn:

O Dduw ein Tad, cynorthwya ni yn y gwasanaeth hwn i ymdawelu yn dy bresenoldeb ac i ymddiried yn arweiniad yr Ysbryd Glân, fel y byddom yn sefydlu ein meddwl a'n bryd arnat ti, yn gwrando ar dy Air yn ddeallus, yn gweddïo yn ostyngedig, ac yn d'addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Gofynnwn hyn yn enw ein Gwaredwr a'n Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 529 – *Ni ganwn am gariad Creawdwr yn ddyn*

Darlleniad: Llythyr cyntaf Ioan 4: 7–21

Emyn: 171 – *Os gofyn rhywun beth yw Duw*

Gweddïwn:

(a)

*'Addolwn Dduw, ein Harglwydd mawr,
Mewn parch a chariad yma'n awr;
Y Tri yn Un a'r Un yn Dri
Yw'r Arglwydd a addolwn ni.'*

Diolchwn iti, ein Tad, am eiriau'r emynydd i'n helpu i amgyffred mawredd dy Berson, ac i nesáu atat mewn cariad a hyder gostyngedig. Fe ddywed dy Air wrthym, *'Fel y tosturia tad wrth ei blant felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.'* O Dad, cynorthwya ni i gredu hyn, fel y nesawn atat gyda sicrwydd ffydd dy fod yn ein derbyn yn ein gwendid ac yn gwrando ar ein gweddïau.

Diolchwn iti am dy ddatguddio dy hun, nid yn unig yn Dad agos a thrugarog ond yn Frawd cywir ac yn Geidwad bendigedig yn Iesu Grist. Diolchwn iti am gynhesrwydd dy gariad tuag atom yn dy Fab, ac am iddo gymryd ein natur ni ym Methlehem, a byw gyda theulu cyffredin yn Nasareth. Diolchwn iti am symlrwydd ei fywyd yn nyddiau ei gnawd,

am newydd-deb ei ddysgeidiaeth, am ei dosturi tuag at y dioddefus a'r diymgeledd, ac am gonsŷrn ei gariad at y rhai a ddaeth ato i geisio cymorth. Ond yn fwy na dim diolchwn, ein Tad, am i'th Fab *'gymryd ein pechodau ni yn ei gorff ar y croesbren er mwyn i ni ddarfod â'n pechodau a byw i gyfiawnder.'* O Arglwydd Iesu Grist, mawr yw ein dyled i ti am aberth dy gariad ar groes Calfaría, ac am fuddugoliaeth dy gariad yn gorchfygu pechod, angau a'r bedd. Do:

*'Ti gest angau, ti gest uffern,
Ti gest Satan dan dy droed:
Pen Calfaría,
Nac aed hwnnw byth o'm cof.'*

(b)

Gweddiwn, ein Tad, ar iti gofio a chynnal dy blant yn eu gwahanol anghenion – y cleifion a'r profedigaethus. O Dad, cynnal hwy yn eu gofid a'u gwaeledd a chadw hwy rhag digalonni mewn unrhyw fodd.

Gweddiwn dros yr hen a'r methedig. O Dad, cynnal hwy yn eu hanabledd a'u gwendid. Gweddiwn dros y canol oed prysur. O Dad, cynnal hwy yn eu gwaith a'u cyfrifoldebau. Gweddiwn hefyd dros ein plant a'n pobl ifanc. O Dad, cynnal hwy, a chadw hwy fel ninnau rhag temtasiynau'r un drwg.

Diolchwn iti am bawb sy'n gwneud daioni ac yn esmwytháu gofidiau dy blant sy'n dioddef beichiau bywyd. Yn dy drugaredd nertha ni hefyd i gyfieithu dy gariad yn gymwynasau hael a da, ac i ddyfalbarhau mewn gobaith, *'gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni.'* Ac iddo ef y byddo'r clod a'r gogoniant yn awr ac yn oes oesoedd. Amen.

Emyn: 38 – *Cariad Tri yn Un*

Llefarydd:

'Do, carodd Duw'r byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.'

Y mae'r adnod hon ymhlith adnodau mawr y Beibl. Fe'i disgrifiwyd gan yr Archesgob William Temple fel 'y *frawddeg fwyaf yn y llyfr mwyaf yn y byd.*' Dywedodd Martin Luther mai yn yr adnod hon y cawn 'yr *Efengyl mewn darlun bychan.*' Dywedwyd hefyd, '*Pe llosgid y Testament Newydd i gyd, a ninnau'n cofio'r adnod hon, buasai neges ganolog yr Efengyl yn ddiogel gennym.*' Gadewch inni wrando ar ei neges unwaith eto:

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.'

Y mae'r adnod hon yn cynnwys geiriau mawr yr Efengyl: Duw yn CARU – 'yn caru'r byd', a Duw yn RHOI – 'rhoi ei unig Fab', a ninnau yn CREDU ac yn CAEL '*bywyd tragwyddol*'. Yn ddi-ddadl mae'r adnod hon yn ymwneud â chraidd yr Efengyl, sef ymwneud grasol Duw â'i fyd, ac â'i waredigaeth i ni o hunanddistryw i fywyd tragwyddol. Yr hyn a wnawn heddiw yw ymhelaethu ar neges fawr yr adnod hon drwy symud o gymal i gymal.

Yn gyntaf: ehangder cariad Duw

'Do, carodd Duw y byd ...'

Mae i'r gair '*byd*' ei arwyddocâd, sef fod cariad Duw gyfled ag angen pawb a phopeth. Mewn geiriau eraill y mae loan yn tystio i ehangder cariad Duw, a'i fod yn cofleidio'r holl fyd yn ei ddiffygion a'i angen mawr. Nid caru'r Eglwys yn unig a wna Duw. Nid caru credinwyr yn ei Fab Iesu Grist yn unig a wna Duw, ond pawb yn ddiwahân – y byd cyfan yn ei rinweddau a'i ddiffygion.

Credwn fod arwyddocâd arbennig yn y gair 'cariad'. '*Do, carodd Duw'r byd ...*' Duw yn *caru'r* byd sydd yma, nid *hoffi'r* byd. Mae llawer o bethau am y byd, ac amdanom ni, nad yw Duw yn eu hoffi, megis balchder, rhagrith, hunangyfiawnder, hunanoldeb, hunanymffrost ac yn y blaen. Yn wir y mae'r proffwyd Eiseia'n defnyddio gair cryfach, sef 'casáu': '*Y mae'r Arglwydd yn casáu trais a chamwri.*' Casâ Duw bechod o bob math, oherwydd y llanast y mae wedi ei adael ar ein

bywydau, ond trwy'r cyfan y mae'n caru pechadur gymaint fel nad oes neb y tu allan i gylch consŷrn ei gariad. *'Do, carodd Duw y byd ...'*

Yr argyhoeddiad hwn a yrrodd Paul dros ffiniau ei genedl i bregethu'r Efengyl i'r cenhedloedd. Dywedwyd yn briodol iawn, *'The love-line that came down from heaven, and embraced the whole world.'* Os felly, pwy ydym ni i ymddwyn ac i weithredu'n wahanol?

*'Ehanga 'mryd a gwared fi
Rhag culni o bob rhyw,
Rho imi weld pob mab i ti
Yn frawd i mi, O Dduw.'*

Llefarydd:

Yn ail: mawredd cariad Duw

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.'

Duw yn rhoi. Dyma yw natur cariad ar ei orau, sef rhoi. Mae gennym ddigonedd o enghreifftiau o Dduw yn rhoi – rhoi'r ddaear yn gartref inni, rhoi anadl o'n mewn, rhoi gwlad inni, rhoi teulu a chyfeillion inni, ac yn y blaen. Natur cariad Duw erioed yw rhoi, ond yn yr adnod dan sylw rydym yn dod wyneb yn wyneb â Duw sy wedi gwneud mwy nag agor ei law a rhoi rhoddion inni. Fe agorodd Duw ei galon a rhoi ei hunan inni ym Mherson ei Fab Iesu Grist.

Yn yr iaith Roeg, iaith wreiddiol y Testament Newydd, ceir gwahanol eiriau am 'gariad', sef *'eros'*, *'philia'* ac *'agape'*. Dengys hyn fod Cristnogion yr Eglwys Fore yn ymwybodol iawn bod gwahanol raddfeydd i gariad, a'i fod yn amrywio o gariad sy'n byw i'r hunan yn llwyr, i gariad sy'n ymwadu â'r hunan yn gyfan gwbl er mwyn arall.

'Eros' yw'r gair Groeg am gariad teimladol a chorfforol, a dyna o ble y daw'r gair *'erotig'*. Y mae elfen hunanol yn y gair *'eros'*, a'i elfen lywodraethol yw boddhad personol.

'Philia' yw'r gair Groeg am gariad tuag at ein teuluoedd a'n cyfeillion. Cariad dynol a naturiol iawn yw *'philia'*, ac fel *'eros'* mae'n gariad cyfyngedig iawn. Er enghraifft, mae rhieni'n caru eu plant yn

angerddol, ond gallant fod yn ddigon di-hid ac oeraidd tuag at blant pobl eraill!

'Agape' yw'r gair Groeg yn y Testament Newydd am gariad Duw tuag at bawb yn ddiwahân. Y mae'n gariad eang a llwyr, ac yn aberthol ei natur. Cariad sy'n costio yw *'agape'*, a dyna a wnaeth Iesu Grist – rhoi hyd angau ar groes.

Mae'n anodd i ni, feidrolion, amgyffred mawredd y rhoddi a wnaeth Duw yn Iesu Grist. Pwy ohonom a all fesur cariad dynol i ddechrau, megis cariad rhieni tuag at eu plant, heb sôn am geisio mesur cariad aberthol Duw tuag atom yn ei Fab? Mae ei gariad ef yn anfesuradwy. Er hynny fe allwn, drwy ddarllen y Testament Newydd, weld gŵr ifanc yn tywallt ei gariad arnom wrth farw ar groes Calfaria, ac o weld hyn, ei amgyffred. *'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab ...'*

Emyn: 492 – *Mae'r gwaed a redodd ar y groes*

Llefarydd:

Yn drydydd: pwrpas cariad Duw

Y pwrpas yng ngeiriau'r adnod yw *'Er mwyn i bob un sy'n credu beidio â mynd i ddistryw, ond cael bywyd tragwyddol'*.

Yn y cymal olaf hwn y mae rhybudd difrifol a newyddion da. Y rhybudd yw bod gwrthod credu newyddion da'r Efengyl yn arwain i ddistryw. Gair dychrynlyd yw 'distryw', sy'n ein hatgoffa fod i'r weithred o wrthod credu yn Iesu Grist ei ganlyniadau trist. Ond y newyddion da yw fod *'pwy bynnag sy'n credu yn etifeddu bywyd tragwyddol.'* Am hynny, *credu* neu (a defnyddio gair arall sy'n gyfystyr) *ffydd* yw'r gyfrinach. Ffydd yw'r allwedd rydym yn ei rhoi yn llaw Iesu Grist, er mwyn iddo ddatgloi cyndyn ddrws ein calon, a dod i mewn i'n bywyd i fyw.

Mae *'bywyd tragwyddol'* yn ymadrodd pwysig yn Efengyl Ioan, ac y mae yn ein codi i'r ymwybyddiaeth fod mwy i fywyd na bywyd yn y byd, a bod y *'pethau na welir'* yn dragwyddol. Beth yw 'bywyd tragwyddol'? Y mae'n gwestiwn anodd ei ateb, ond credwn mai bywyd

wedi ei lenwi â chariad Duw i'r ymylon ydyw, a'i fod yn fwy na digon yn y byd hwn, a thu hwnt i'r llen:

*'Cans byw yw Duw, a chariad yw ef,
Mae bywyd a chariad yn un yn y nef.'*

Fel y dywedwyd, mae gwir gariad yn bwrw allan bob hunanoldeb a phob dyhead i gadw'r fendith i ni ein hunain. Yn wir, fe ddywed Iesu Grist wrthym, *'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i. Oherwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll, ond pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i a'r Efengyl, fe'i ceidw.'*

Gadewch inni felly lynu'n ystyfnig wrth ffeithiau mawr y ffydd – glynu a chredu yng nghariad Duw yn Iesu Grist, ac aros yn ei gariad ef heddiw, yfory ac yn oes oesoedd. Amen.

Emyn: 205 – *Dyma gariad fel y moroedd*

Y Fendith:

*'Dan dy fendith wrth ymadael
Y dymunem, Arglwydd, fod;
Llanw'n calon ni â'th gariad
A'n geneuau ni â'th glod:
Dy dangnefedd
Dyro inni yn barhaus.'* Amen.